
CYDBWYLLGOR GwE

26.09.2018

Yn bresennol:

Y Cynghorwyr: Gareth Thomas – Cadeirydd (Cyngor Gwynedd), Phil Wynn – Is Gadeirydd (Cyngor Bwrdeistrefol Siriol Wrecsam), Huw Hilditch-Roberts (Cyngor Sir Ddinbych) Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint), a Meirion Jones (Cyngor Sir Ynys Mon).

Swyddogion heb bleidlais: Claire Homard (Cyngor Sir y Fflint), Ian Roberts (Cyngor Sir Wrecsam), Garem Jackson (Cyngor Gwynedd)

Swyddogion yn bresennol: Iwan G Evans (Cyngor Gwynedd), Dafydd L Edwards (Cyngor Gwynedd), Alwyn Jones (Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE), Bethan Roberts (GwE), Sion Wyn Evans (GwE), Annes Sion (Swyddog Cefnogi Aelodau yr Awdurdod Lletyol – Cyngor Gwynedd)

1. YMDDIHEURIADAU

Y Cyng. Garffild Lloyd Jones (Cyngor Sir Ddinbych), Rita Price, Arwyn Williams (Cyngor Sir Ynys Mon), Dr Lowri Brown (Cyngor Bwrdeistref Conwy), Dr Gwynn Jones (Cyngor Sir Ynys Mon), Steve Vincent (Llywodraeth Cymru), Haf Williams (Cynyrchiolydd Ysgolion Cynradd), Arwyn Thomas (Rheolwr Gyfarwyddwr GwE), Karen Evans (Cyngor Sir Ddinbych).

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. MATERION BRYD

Nid oedd unrhyw faterion brys.

4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 4 Gorffennaf 2018, fel rhai cywir.

5. CYFRIFON TERFYNOL Y CYD-BWYLLGOR AM Y FLWYDDYN A DDAETH I VEN 31 Mawrth 2018 AC ARCHWILIAD PERTHNASOL

PENDERFYNIAD

Derbyn, nodi a chymeradwyo'r wybodaeth ac awdurdodi'r Cadeirydd i ardystio'r llythyr.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod y cyfrifon wedi eu cyflwyno yn ystod y cyfarfod blaenorol ar y 4 Gorffennaf 2018. Ychwanegwyd yn ystod y cyfarfod hwn y byddai'r cyfrifon yn destun archwiliad gan Deloitte. Mynegwyd fod yr adroddiad 'ISA260' wedi ei gyflwyno gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a'i fod yn manylu ar brif ddarganfyddiadau Deloitte. Nodwyd bwriad yr Archwilydd Cyffredinol gan ychwanegu y bydd adroddiad archwilio diamod ar y datganiadau

ariannol yn cael ei gyhoeddi unwaith y bydd y Cydbwyllgor wedi darparu Llythyr Cynrychiolaeth.

Ategodd yr Archwilydd fod gwaith wedi ei wedi a bod y cyfrifon yn rhai cywir. Ychwanegwyd nad oedd unrhyw gamddatganiadau heb eu cywir nac unrhyw gamddatganiadau wedi eu cywir. Nodwyd nod oedd angen newid dim yn rhan o'r cyfrifon a nodwyd fod argymhellion wedi eu gwneud ac wedi eu nodi yn yr adroddiad. Mynegodd y Pennaeth Cyllid ar gyfer yr Awdurdod Lletyol fod argymhellion ar gyfer systemau technoleg gwybodaeth, ond ategwyd nad oedd hyn ar gyfer GwE ond yn hytrach ar gyfer systemau Cyngor Gwynedd.

Diolchwyd i staff am eu gwaith da.

6. CYLLIDEB GwE 2018/19 – ADOLYGIAD CHWARTER CYNTAF

PENDERFYNIAD

Derbyn yr adroddiad

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi mai adroddiad ar gyfer chwarter cyntaf y flwyddyn oedd yr adroddiad. Tynnwyd sylw at yr amrywiadau ariannol oedd i'w gweld yn y gyllideb. Nodwyd fod Secondiad i Gyfarwyddwr Cynorthwyol o'r 1af o Fehefin wedi arwain at danwariant un-tro, yn ariannu arbedion i'w darganfod. Ond pwysleisiwyd mai ar sail dros dro yn unig y bydd hyn. Ychwanegwyd nad oedd unrhyw beth tu hwnt i'r arferol yn y gyllideb ac y bydd diweddariad ar y gyllideb i'w gweld yng nghyfarfod nesaf yn Cydbwyllgor.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Holwyd am gyllideb GwE ar gyfer y flwyddyn nesaf, gyda cymaint o doriadau yn wynebu Awdurdodau Lleol, a fydd cyfraniadau ar gyfer GwE yn lleihau. Nodwyd fod tynged GwE yn ddibynnol ar y Setliad Ddrafft y bydd y Llywodraeth Cymru yn ei gyhoeddi ddechrau Hydref ar gyfer Awdurdodau Lleol. Mynegwyd fod hyblygrwydd posib gan Lywodraeth Cymru ond fod trafodaeth wedi ei gynnal gyda'r Rheolwr Gyfarwyddwr GwE er mwyn trafod beth fuasai effaith colli 1%, 2% neu 3% o'r gyllideb.

7. COFRESTR RISG 2018/19 – ADOLYGU CHWARTER 1

PENDERFYNIAD

Derbyn yr adroddiad

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ei fod yn adroddiad rheolaidd sydd yn adnabod risgiau a'r camau gweithredu dilynol i'w lliniaru. Ychwanegwyd fod trafodaeth wedi ei gynnal yn ystod y cyfarfod diwethaf ym mis Gorffennaf i drafod y gofrestr ac nad oes llawer o newidiadau wedi eu gwneud yn ystod misoedd yr haf.

Tynnwyd sylw at ddiweddariadau i 3 risg - rhif 5, 11 ac 17. Ychwanegwyd fod y tri risg bellach wedi eu lliniaru ond y bydd angen trafodaeth bellach ar ganlyniadau TGAU Saesneg. Mynegwyd y bydd mwy o newid i'r gofrestr risg a thrafodaeth bellach yn ystod cyfarfod nesaf y Cyd-Bwyllgor.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Holwyd gyda chymaint o newidiadau ar y gwell i ysgolion, a yw GwE a'r ysgolion yn barod. Nodwyd pryder am y risg sydd i ysgolion, yn enwedig ysgolion bach ac uwchradd - mynegwyd fod gwaith yn cael eu gwneud. Ychwanegwyd fod gweithdai wedi eu cynnal gan GwE er mwyn cynorthwyo'r ysgolion gyda'r newidiadau.

8. CYNLLUN BUSNES LEFEL 1

PENDERFYNIAD

Derbyn yr Adroddiad.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad ar gyfer chwarter cyntaf y flwyddyn. Nodwyd fod yr adroddiad wedi ei lunio cyn canlyniadau'r haf - bydd angen trafodaeth bellach ar y canlyniadau yn ystod cyfarfod nesaf y Cyd-Bwyllgor mis Tachwedd. Ychwanegwyd fod monitro chwarter dau yn cael ei gynnal yn ystod y bythefnos nesaf.

Ategwyd fod yr adroddiad yn dangos fod Cynllun Busnes Lefel 1 ar y trywydd cywir.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd codiad cyflog athrawon wedi ei gyhoeddi yn syth ar ôl i'r ysgolion gau am y gwyliau a nodwyd fod hyn yn amseriad gwael iawn. Ategwyd fod hyn wedi codi pryder prif athrawon dros gyfnod yr haf am gyllidebau ac ariannu'r codiad cyflog hwn. Pwysleisiwyd fod angen cysidro lles Prif Athrawon.

9. ADRODDIAD CHYCHWYNNOL I GYD-BWYLLGOR GwE AR BERFFORMIAD Y RHANBARTH

PENDERFYNIAD

Derbyn yr adroddiad ac ymddiried yn y Cadeirydd i ysgrifennu Llythyr, ar ran y Cyd-Bwyllgor i Cymwysterau Cymru.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod trafodaeth wedi ei gynnal yn y Bwrdd Rheoli am berfformiad y rhanbarth ond ategwyd fod angen trafodaeth bellach yn dilyn cyhoeddi canlyniadau Cyfnod Allweddol 4 yn ystod mis Hydref. Ychwanegwyd y bydd angen trafodaeth bellach ar berfformiad y rhanbarth yng nghyfarfod y Cyd-Bwyllgor ym mis Tachwedd.

Ychwanegwyd fod perfformiad Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 yn gadarn ond fod blaenoriaeth i'r Cyfnod Sylfaen. Ychwanegwyd fod data Cyfnod Allweddol 4 yn amrwd ar hyn o bryd a nodwyd lleihad mewn Saesneg. Mynegwyd fod hyn yn cael ei weld yn Genedlaethol a bod GwE wedi ysgrifennu at Cymwysterau Cymru yn gofyn am ymchwiliad pam fod canlyniadau ysgolion na roddodd ddisgyblion ar gyfer mynediad cynnar yn ymddangos yn is na'r rhai a ddefnyddiodd arholiadau mynediad cynnar ym mis Mehefin a Tachwedd 2017. Mynegwyd fod canlyniadau'r ymchwiliad yn fod i'w cyrraedd heddiw. Mynegwyd mai'r brif broblem oedd bod newidiadau i ffiniau graddau CBAC wedi codi 20 marc. Mynegwyd fod angen cyfiawnhad pam fod hyn wedi digwydd gan fod ysgolion sydd yn hanesyddol yn perfformio yn agos i'w targedau i yn is eleni nac yr arferol.

Gofynnwyd i Gareth Thomas ar ran y deilyddion portffolio addysg i ysgrifennu yn swyddogol at Gymhwysterau Cymru yn gofyn am eglurhad.

10. PROSIECT SHIRLEY CLARKE

Derbyniwyd cyflwyniad gan Stella Gruffydd yn nodi'r gwaith oedd yn cael ei wneud ym Mhrosiect Shirley Clarke sydd â ffocws ar Asesu ar gyfer Dysgu a gwella ansawdd y dysgu ac addysgu. Mynegwyd fod Haen 1 y prosiect yn dod at ei derfyn ac y bydd Haen 2 yn cychwyn ym mis Tachwedd.

Tynnwyd sylw at ymrwymiad GwE i'r prosiect a bod Prifysgol Bangor yn gwerthuso a mesur effaith y cynllun. Nodwyd fod Arolwg diweddar o Ysgol Cefn Coch, Penrhyndeudraeth yn dangos fod y gwaith mae'r prosiect yn ei wneud yn llwyddiannus. Ychwanegwyd fod y cynllun yn un tair mlynedd a diolchwyd i staff ac athrawon am eu gwaith.